# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(134)v6

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen ad-drefnu ysbytai de Cymru? EAQ(4)0285(HSS)

**3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4 Dadl ar Araith y Frenhines (120 mins)**

**NDM5245 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2013/2014.

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU (ar gael yn Saesneg yn unig):

https://www.gov.uk/government/topical-events/queens-speech-2013

**Dogfennau ategol:**
Papur Gwasanaeth Ymchwil
Datganiad Ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Gwladol
Gwybodaeth am y Mesurau Seneddol yn Araith y Frenhines a ddarparwyd gan Swyddfa Cymru, Mai 2013
Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na chafodd Bil Llywodraeth Cymru, sy’n gweithredu argymhellion y Comisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, ei gynnwys yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Cymru drafft, a fydd yn diwygio etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac a allai roi llwyfan i Lywodraeth y DU i roi unrhyw welliannau gan Gomisiwn Silk (Rhan I) ar waith.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, sy'n golygu y bydd hawl gan bob elusen a busnes o fis Ebrill 2014 hawl i Lwfans Cyflogaeth gwerth £2,000, a fydd yn help i dros 35,000 o fusnesau yng Nghymru gyflogi eu gweithiwr cyflogedig cyntaf neu ehangu ar eu gweithlu.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Pensiynau, a fydd yn cyflwyno pensiwn y wladwriaeth un haen, a fydd yn golygu newid sylweddol ac angenrheidiol a fydd yn gymorth i bobl gynilo ar gyfer eu hymddeoliad.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Dadreoleiddio, a fydd yn help i leihau'r baich rheoleiddio diangen a gormodol ar fusnesau, sefydliadau ac unigolion, i helpu twf ac arbed arian ar gyfer y trethdalwr.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Hawliau Defnyddiwr drafft, a fydd yn symleiddio ac yn atgyfnerthu hawliau craidd y defnyddiwr, ac yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr hawliau cliriach yn ôl y gyfraith a bod busnesau yn trin eu cwsmeriaid yn deg.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Gofal, a fydd yn diwygio cyllid gofal a chymorth yn Lloegr a fydd yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag costau uchel eu gofal cymdeithasol, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r prif egwyddorion a fydd yn sail i system ariannu gofal newydd yng Nghymru.

**Gwelliant 8 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU, fel y'i hamlinellwyd yn ei rhaglen ddeddfwriaethol, i adeiladu economi lle y bydd pobl sy'n gweithio'n galed yn cael eu

gwobrwyo'n briodol.

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i'r Bil Cymru drafft.

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth y DU i Fil Gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion tebyg er mwyn mynd i'r afael â chostau gofal yng Nghymru.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid Buddsoddi i Arbed (60 munud)**

**NDM5246 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fuddsoddi i Arbed a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mawrth 2013.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Cyllid yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Llythyr gan y Gweinidog Cyllid i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Ymateb Llywodraeth Cymru

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5244 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa mor Ddiogel yw Diogel?: Goblygiadau i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr o ystyried y Bil Teithio Llesol

Dadl i drafod beth yw taith gerdded neu feicio ddiogel i'r ysgol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2013